# Gwaelod y Garth

Cylchlythyr Wythnosol / Weekly Newsletter

11.04.2025




## Gwobr Aur *Siarter Iaith Gold Award !!*

Wrth i ni gyrraedd diwedd Tymor y Gwanwyn daw cyfle i fyfyrio ar dymor o brofiadau dysgu arbennig, hwyl mawr a llwyddiannau lu. Tymor o Eisteddfota a dathlu Cymreictod, tymor o ddathlu ein amgylchedd unigryw a dyfodiad y Gwanwyn, tymor o ddathlu ffyniant a thwf pob un o'n disgyblion. Arbennig iawn yw gallu dathlu diwedd tymor mewn steil wrth i ni ennill Gwobr Aur y Siarter Iaith. Mae hwn yn benllanw blynyddoedd o waith o dan arweiniad ein Dreigiau Doeth hynod egnïol. Diolch iddyn nhw, i'r holl staff ac yn arbennig i Mrs Darch a Mrs Ellis. Ymfalchïwn ym mhob agwedd o'n Cymreictod sydd amlwg ac ym mhob peth a wnawn ar draws ein hysgol a'n cymuned. Llongyfarchiadau bawb! ♥♥♥

Yn ogystal â dathlu ein Cymreictod, cawsom gyfle i ddathlu'r Gwanwyn ar Pasg yr wythnos hon. Bu dipyn o hwyl yn yr Helfa Wyau gyda phlant o bob oed yn cefnogi'i gilydd i gracio cod yr helfa. Diolch i'r GRhA am drefnu ac yn arbennig i Mrs Davies am ei gwaith caled. Codwyd swm o £447.50. Gwych iawn!

Braf yw gallu croesawu Mrs Cole yn ôl i'r ysgol yr wythnos hon. Bydd Mrs Cole yn cysylltu yn fuan gyda rhieni'r Feithrin o drefnu cyfarfodydd Noson Rieni.

Ar ran holl staff yr ysgol, diolch i chi am bob cefnogaeth eto y tymor hwn a Pasg Hapus iawn i chi gyd!

* * * * * *

At the end of this Spring Term we have an opportunity to reflect on a term of wonderful learning experiences, great fun and many successes. A term of celebrating the Eisteddfod and all things Welsh, of celebrating our unique environment and the arrival of Spring, a term seeing each of our pupils grow and prosper. To able to celebrate end of term with achieving the Gold Award for the Language Charter is very special indeed. This is the culmination of years of work led by our wonderful Dreigiau Doeth. Diolch to the *Dreigiau*, to all staff and especially to Mrs Darch and Mrs Ellis. We pride ourselves on every aspect of our Cymreictod which is evident and in all that we do across our school and community. *Llongyfarchiadau* bawb! ♥♥♥

We also had opportunities this week to celebrate Spring and Easter. We all had fun at the Easter Egg Hunt, with children of all ages supporting each other to crack the code. Thank you to the PTA for organising this event and especially to Mrs Davies for her hard work. We raised an amazing £447.50. *Gwych*!

We are glad to be able to welcome Mrs Cole back to school this week. For Nursery parents, Mrs Cole will be in touch soon to organise Parents' meetings.

On behalf of us all here at Ysgol Gwaelod y Garth, diolch for your support again this term. Pasg Hapus iawn i chi gyd!

## Dyddiadau Pwysig *Important Dates*

**28.04.25 Llun / Monday**
Diwrnod cynta'r tymor
First day of term

**09.05.25 Gwener / Friday**
Gwasanaeth Dosbarth 1C
1C Class Assembly

**05.05.25 Llun / Monday**
Gwyl y Banc Calan Mai
May Day Bank Holiaday

**23.05.25 Gwener / Friday**
Diwrnod HMS (dim ysgol)
INSET Day (no school)

**26.05.25 – 30.05.25**
Gwyliau Hanner Tymor
Half Term Holiday





Cofiwch am ein calendr byw ar dudalen cartref y wefan.

*Our live calendar is on our school website's homepage.*

Diolch i'r Dreigiau Doeth am eu gwaith arbennig yn arwain yr ysgol tuag at Wobr Aur i Siarter Iaith – Llongyfarchiadau BAWB!

Fantastic work by the Dreigiau Doeth leading the school 's success in achieving the Gold Award for the Welsh Language Charter – Congratulations to all!





Consortiwm Canolbarth y De
Central South Consortium

# Gwobr Aur Siarter Iaith

Mae hyn i dystio bod:

**Ysgol Gwaelod y Garth**

wedi cyflawni

**Gwobr Aur Siarter Iaith**

Llofnod: L Blatchford Dyddiad: Mawrth 2025

*Louise Blatchford*
*Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro*

**<u>C.Rh.A / *P.T.A*</u>**

Cofiwch am.... *Don't forget....*

**22/05/25:** Diwrnod ben i waered / *Upside down day*

**27/06/25:** Ffair Haf / *Summer Fayre*

**Diolch** i'r GRhA am eich gwaith caled!
*A big **diolch** to our fantastic PTA!*




## Celf a Chrefft yr Urdd



Cofiwch am **waith cartref** celf a chrefft yr Urdd sydd wedi'i osod i bawb y tymor hwn. Mae manylion ar *Google Classrooms* pob dosbarth. Gofynnwn i bob darn o waith fod yn ôl yn yr ysgol erbyn Dydd Llun, Ebrill 28. Cyfle i bawb fod yn greadigol dros wyliau'r Pasg!

## Urdd Arts and Crafts Homework

Don't forget about Urdd arts and crafts competition which was set as **homework** for all pupils this term. Details are on each class's *Google Classrooms*. We ask that all pieces of work are returned to school by Monday, April 28. A chance for one and all to get creative over the Easter holidays!



Mae Cywion y Feithrin wedi tyfu!   The chicks have grown!













## Cymro / Cymraes yr Wythnos

## Welsh learners of the week







## Dysgwyr yr Wythnos

## Learners of the week